

LIC25-

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A40
(Cyfnewidfa Rhaglan i Gylchfan
Dixton, Trefynwy, Sir Fynwy)
(Gwahardd Traffig Dros Dro) 2025

Gwnaed 4 Tachwedd 2025
Yn dod i rym 10 Tachwedd 2025

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A40, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Cyfnewidfa Rhaglan i Gylchfan Dixton, Trefynwy, Sir Fynwy) (Gwahardd Traffig Dros Dro) 2025 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 10 Tachwedd 2025.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

WG25-

ROAD TRAFFIC, WALES

The A40 Trunk Road (Raglan
Interchange to Dixton Roundabout,
Monmouth, Monmouthshire)
(Temporary Prohibition of Traffic)
Order 2025

Made 4 November 2025
Coming into force 10 November 2025

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A40 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Title and commencement

1. The title of this Order is the A40 Trunk Road (Raglan Interchange to Dixton Roundabout, Monmouth, Monmouthshire) (Temporary Prohibition of Traffic) Order 2025 and this Order comes into force on 10 November 2025.

Interpretation

2. In this Order—

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 20:00 o’r gloch ar 10 Tachwedd 2025 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A40 Casnewydd i Gaerwrangon.

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd pobl anabl neu reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o’r gefnffordd a bennir ym mharagraffau 1 a 2 o’r Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o’r gefnffordd a bennir ym mharagraffau 1 a 2 o’r Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

6. Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn ei dangos.

Cyfnod para’r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

4 Tachwedd 2025

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

ATODLEN

Y darn o gerbyttffordd tua’r gogledd-ddwyrain y gefnffordd sy’n ymestyn o drwyniad ffordd ymadael tua’r dwyrain yr A449 sy’n arwain at yr A40 tua’r gorllewin wrth Gyfnewidfa Rhaglan hyd at ei chyffordd â Chylchfan Dixon, Trefynwy, Sir Fynwy.

Y darn o gerbyttffordd tua’r de-orllewin y gefnffordd sy’n ymestyn o’i chyffordd â Chylchfan Dixon, Trefynwy hyd at drwyniad y ffordd ymadael tua’r gorllewin wrth Gyfnewidfa Rhaglan.

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A40 Newport to Worcester trunk road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 20:00 hours on 10 November 2025 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are permanently removed.

Prohibitions

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

4. No person may, during the works period, drive any invalid carriage or ride any pedal cycle on the lengths of the trunk road specified in paragraphs 1 and 2 of the Schedule to this Order.

5. No pedestrian may, during the works period, proceed on the lengths of the trunk road specified in paragraphs 1 and 2 of the Schedule to this Order.

Application

6. The prohibitions in articles 3, 4 and 5 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

7. The maximum duration for this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated

4 November 2025

Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

SCHEDULE

The length of the north-eastbound carriageway of the trunk road that extends from the nosing of the A449 eastbound exit leading to the westbound A40 at Raglan Interchange to its junction with Dixon Roundabout, Monmouth, Monmouthshire.

The length of the south-westbound carriageway of the trunk road that extends from its junction with Dixon Roundabout, Monmouth to the nosing of the westbound exit slip road at Raglan Interchange.

Y darn o ffordd ymuno tua'r dwyrain yr A40 sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r B4233 Cinderhill Street, Trefynwy hyd at ei thrwyniad â phrif gerbyttfordd tua'r dwyrain yr A40.

Y cilfannau sy'n gyfagos i gerbyttfordd tua'r dwyrain y gefnffordd i'r dwyrain o Landdingad ac i'r gogledd-ddwyrain o Lanfihangel Troddi a'r gilfan sy'n gyfagos i gerbyttfordd tua'r gorllewin y gefnffordd i'r dwyrain o Landdingad.

The length of the A40 north-eastbound entry slip road that extends from its junction with the B4233 Cinderhill Street, Monmouth to its nosing with the main A40 eastbound carriageway.

The lay-bys adjacent to the eastbound carriageway of the trunk road east of Dingestow and north-east of Mitchel Troy and the lay-by adjacent to the westbound carriageway of the trunk road east of Dingestow.